**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu

**Cyfarfod aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / *MS Teams***

**Dydd Mawrth, 14 Mawrth 2023 am 4.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | R Fogarty | T J Hennegan |
| V A Holland | M Jones | H Lawson |
| W G Lewis | F D O'Brien | S Pritchard |
| M S Tribe | T M White | |

**Aelod(au) Cyfetholedig Statudol**

| | |
|---|---|
| Beth Allender | Elizabeth Lee |

**Cynghorwyr sy'n Aelod Cyfetholedig**

| | | |
|---|---|---|
| P R Hood-Williams | S M Jones | L R Jones |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Paula O'Connor, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: C A Holley

---

## 83 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 84 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chyhoeddwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 85 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2023 fel cofnod cywir, yn amodol ar gofnodi ymddiheuriadau Beth Allender.

## 86 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 87 Camau Dilynol: Gweithgor Craffu - Gwasanaethau Bysus.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r mater gael ei ohirio oherwydd salwch y Swyddog.

**Penderfynwyd** gohirio'r eitem.

## 88 Perthynas y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio / Craffu

Trafododd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio waith ei Phwyllgor a'r berthynas rhwng Craffu a Llywodraethu ac Archwilio. Roedd hyn yn rhan o ymdrechion parhaus i gryfhau'r berthynas honno a gweithio'n agosach.

Cyfeiriodd at y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ddiweddar a oedd yn rhoi cyfrifoldebau ychwanegol i Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â Hunanasesiad Perfformiad Blynyddol y cyngor, ac adolygiad Perfformiad Cymheiriaid unwaith y tymor. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Bwyllgorau ystyried Adroddiad Cwynion Blynyddol y cyngor.

Cyfeiriodd at yr ystod o gamau gweithredu sydd eisoes ar waith i sicrhau bod ymwybyddiaeth/dealltwriaeth o waith pob Pwyllgor, ynghyd â chydlynu er mwyn osgoi dyblygu, a chyfeiriodd at enghreifftiau o waith mewn perthynas ag archwilio allanol ac adrodd am berfformiad a'r gwahaniaeth mewn ymagweddau, gan sicrhau bod gweithgarwch ar unrhyw bynciau cyffredin yn ategol, gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymwneud yn bennaf â sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y broses. O ystyried rôl y Panel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid wrth gynnal monitro perfformiad parhaus, mae Cynullydd y Panel, y Cynghorydd Chris Holley, yn cael ei wahodd i fod yn bresennol mewn Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio pan fydd unrhyw adroddiadau perfformiad yn cael eu trafod.

Cyfeiriodd hefyd at Hyfforddiant Cymru Gyfan y mae wedi'i gwblhau sydd wedi ei helpu yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd wedi cynnwys y berthynas â Chraffu, a rolau priodol.

Diolchodd y Cadeirydd i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am ei hadroddiad gwybyddus.

**89 Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (Y Cynghorydd Paxton Hood-Williams, y Cynullydd)**

Darparodd y Cynghorydd Paxton Hood-Williams adroddiad a oedd yn crynhoi gwaith y Panel Craffu Perfformiad Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd dros y flwyddyn ddiwethaf, a materion allweddol y mae'r Panel wedi bod yn canolbwyntio arnynt.

**Penderfynwyd** nodi Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad mewn perthynas â Phanel Craffu Perfformiad Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd.

**90 Aelodaeth Paneli Craffu a Gweithgorau**

**Penderfynwyd** cytuno ar aelodaeth y Paneli a'r Gweithgorau, fel yr adroddwyd.

**91 Rhaglen Waith Craffu**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu gytunedig ar gyfer 2022/23 y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ei monitro.

Y cynllun ar gyfer y Cyfarfod Arbennig ar 20 Mawrth yw:

- Craffu Cyn Penderfynu: Terfyn Cyflymder Diofyn 20mya Cenedlaethol gan gynnwys Ystyried y Broses Eithrio.

Y prif eitemau sydd wedi’u hamserlennu ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 18 Ebrill yw:

- Sesiwn Graffu ar Drosedd ac Anhrefn - Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe Mwy Diogel.

**92 Llythyrau Craffu**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Llythyrau Craffu' er gwybodaeth.

**93 Dyddiad ac amser cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddyddiad ac amser Cyfarfodydd y Panel/Gweithgor Craffu sydd ar ddod, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.17pm

**Cadeirydd**